

Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol Atodiad 2

Penderfynodd y Grŵp Buddsoddi Strategol wahodd ceisiadau yn unol â'r dyraniadau bloc y cytunwyd arnynt eisoes gan wasanaethau. Roedd y broses yn fwy syml yn 2021-22 na'r blynyddoedd blaenorol. Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu achos busnes i gefnogi eu ceisiadau, ond fe hepgorwyd y gofyniad i Benaethiaid Gwasanaeth gyflwyno ceisiadau i'r Grŵp Buddsoddi Strategol.

Cafodd pob cais ei gyflwyno gyda chymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Ceir manylion am y dyraniadau arfaethedig yn Atodiad 1 ac mae crynodeb ohonynt fel a ganlyn:

- Mae dyraniad o £240,000 yn cael ei argymhell ar gyfer Mân Addasiadau, Offer Cymunedol a Theleofal. Targedir y cyllid hwn at alluogi'r henoed a'r anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Y bwriad yw dyrannu £1.2 miliwn i gefnogi Cymorth Tai Sector Preifat. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn bennaf ar ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.
- Mae'r cynigion cyfalaf cynnal a chadw ysgolion ac adeiladau nad ydynt yn ysgolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol fel Cael Gwared ar Asbestos, Gwaith Asesu Risg Tân, Cydraddoldeb ac ati. Argymhellir bod £3.651 miliwn yn cael ei ddyrannu i Waith Cyfalaf Cynnal a Chadw Ysgolion. Bwriedir hefyd dyrannu £1.541 miliwn i waith cyfalaf cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn ysgolion. Argymhellir ymhellach bod y Pensaethiaid Gwasanaeth priodol yn pennu yr union ddyraniadau i'r gwaith sydd ei angen, yn nhrefn blaenoriaeth. Mae'r dyraniadau llawn a fwriedir yn bodloni'r gwaith sydd â'r flaenoriaeth mwyaf a nodwyd ar draws yr ysgolion ac adeiladau nad ydynt yn ysgolion.
- Ar 26 Ionawr 2021 fe gymeradwyodd y Cyngor £100,000 ar gyfer Priffyrdd fel rhan o ddyraniad Cynllun Corfforaethol 2021/22. Bydd hyn yn caniatáu gwariant cyfalaf o £1.750m.
- Yn ogystal â hyn, bwriedir dyrannu dyraniad bloc o £710,000 ar gyfer atgyweiriadau strwythurol ac atgyweiriadau eraill, gan gynnwys cynnal a chadw priffyrdd, goleuadau stryd a phontydd. Hefyd wedi'i gynnwys o fewn yr argymhelliad hwn mae £403k pellach ar gyfer atgyweirio strwythurau pont. Dyma bumed flwyddyn Prosiect Ôl-Groniad Strwythur Priffyrdd deng mlynedd arfaethedig.
- Argymhellir dyraniad o £324,000 i gynnal gwelliannau o ran diogelwch ar y ffyrdd.
- Ystyriodd y Grŵp Buddsoddi Strategol gynnig ar gyfer parhad rhaglen saith mlynedd o ailosod yr holl lampau goleuadau stryd o fewn Sir Ddinbych gyda lampau LED newydd. Dechreuodd y rhaglen yn 2015/16 a bydd yn costio

cyfanswm o £1.5 miliwn, gan ddarparu arbedion sylweddol ar gostau ynni a chostau cynnal a chadw parhaus. Ariennir y cynllun drwy fenter cyllid Salix y Llywodraeth, sy'n darparu benthyciadau di-log ar gyfer prosiectau sy'n effeithlon o ran ynni, a bydd yn cael ei ad-dalu gan ddefnyddio'r arbedion a gynhrychir. Mae angen ceisiadau blynyddol am gyllid Salix, ac mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymhell cyflwyno cais i gael benthyciad Salix ar gyfer costau'r chweched flwyddyn sydd hyd at £185,000 i'w ad-dalu dros 6 blynedd.

- Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymhell cynnal y dyraniad a neilltuwyd ar gyfer unrhyw argyfyngau annisgwyl, sef £0.5m, yn unol â 2020/21.